Clwb Camera Dwyfor - Polisi Diogelu

Amddiffyn Plant, Pobl Ifanc ac Oedolion Bregus

1. TROSOLWG

Nod y clwb yw annog diddordeb mewn ffotograffiaeth, o fewn ei aelodaeth ac yn y gymuned ehangach. Gyda'r nod hwn mewn golwg, mae croeso i bobl ifanc o dan 18 oed ac oedolion bregus ymuno â'r clwb neu ymweld â hi. Mae gan y clwb ddyletswydd gofal cyfreithiol i bobl yn y grwpiau hyn, i greu amgylchedd diogel, lle gwrandewir arnynt a'u hannog i gymeryd rhan. Er mwyn diogelu buddiannau pob aelod, bydd y polisi canlynol yn berthnasol.

2. DEDDF DIOGELU GRWPIAU BREGUS 2006

Mae'r ddeddfwriaeth yn ceisio amddiffyn oedolion bregus a phobl ifanc o dan 18 oed mewn perthynas â:-

* Cam-drin rhywiol

* Cam-drin emosiynol

* Cam-drin corfforol

* Materion Iechyd a Diogelwch

* Diogelu Data Personol

O dan Ddedf Plant 1989 diffinnir 'plentyn' fel unrhyw un o dan 18 oed.

Mae'r Adran Iechyd yn diffinio 'Oedolyn Bregus' fel unrhyw un dros 18 oed na all efallai amddiffyn ei hun rhag camdriniaeth, niwed neu ecsbloetiaeth, a all fod oherwydd salwch, oedran, salwch meddwl, anabledd neu fathau eraill o nam corfforol neu feddyliol.

3. PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Rhaid i aelodau ifanc, ymwelwyr o dan 18 oed ac oedolion bregus sydd yn mynychu unrhyw gyfarfod cyfreol y clwb, cyfarfodydd eraill y clwb a unrhyw ddigwyddiadau eraill, ddod gyda'u rhiant neu warcheidwad, neu oedolyn/warcheidwad gyda chytundeb penodol y rhiant a fydd yn gyfrifol am eu diogelwch bob amser. Mae hyn hefyd yn berthnasol i wibdeithiau'r clwb, ymweliadau â chlybiau eraill a cyfarfodydd ad hoc yng nghartref aelodau.

Wrth ymuno â'r clwb, rhaid i'r ffuflen gais gael ei harwyddo gan eu rhiant/gwarchediwad i ddynodi eu bod yn derbyn y polisi hwn. Os nad yw rhiant/gwarcheidwad am ddod i gyfarfodydd gyda'r aelod ifanc neu'r oedolyn bregus, dylid enwi'r oedolyn(ion) cyfrifol dynodedig sydd yn cymeryd eu lle, ar y ffurflen aelodaeth.

4. RHAGLEN Y CLWB

Yn ystod cyfafodydd a digwyddiadau'r clwb, dangosir delweddau sydd yn cwpmasu ystod eang o arddulliau a chynnwys. Dylai ystod a chynnwys y delweddau hyn fod yn debyg i'r rhai sydd yn dderbyniol i'r cyhoedd mewn orielau arddangos. Dylid barnu a yw delweddau yn amrhiodol ai pheidio yn y cyd-destun hwn. Disgwylir i bob aelod ddilyn arfer gorau wrth gymeryd rhan mewn ffotograffiaeth plant mewn cystadlaethau'r clwb ac unrhyw un o'n harddangosfeydd. Rhaid i bob ddelwedd o blant fod yn briodol, a mater i'r pwyllgor yw cyflwyno'r delweddau'n derfynol os oes unrhyw bryder.

Bydd sesiynau portreadau y clwb dim ond yn cynnwys tynnu delweddau o blant, pobl ifanc ac oedolion bregus dan oruchwyliaeth uniongyrchol rhiant neu warcheidwad cyfreithiol. Rhaid i ffurflen ganiatâd gael ei llofnodi gan y rhiant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol cyn tynnu unrhyw luniau. Ni chaiff unrhyw ddelweddau o'r fath sy'n ymwneud â phobl bregus eu cyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol o unrhyw fath heb ganiatâd ysgrifenedig y rhiant, gwarcheidwad neu'r oedolyn cyfrifol. Dylid dangos parch llwyr at bobl fregus neu bobl ifanc bob amser, a dylid osgoi iaith wael neu ddifrïol.

5. IECHYD A DIOGELWCH

Dylai pob aelod o'r clwb gymeryd gofal rhesymol i ystyried iechyd a diogelwch pobl ifanc ac oedolion bregus sydd yn aelodau neu yn ymwelwyr â'r clwb. Ni ddylid gofyn i'r naill na'r llall drin na gweithredu offer er enghraifft, a allai fod y tu hwnt i'w gallu. Dylid rhoi gofal ac ystyriaeth o'r fath hefyd yng ngegin y clwb ac o'i chwmpas.

6. LLUNIO ADRODDI AM DDIGWYDDIADAU NEU HONIADAU

Dylid adrodd unrhyw honiadau ynghylch digwyddiadau a nodir yn adran (2) o'r polisi hwn, i unrhyw aelod o'r pwyllgor, a ddylai yn ei dro drosglywddo'r pryderon ar unwaith i'r Cadeirydd (neu yn ei absenoldeb ef neu hi, swyddog arall o'r clwb). Yna dylai'r Cadeirydd gysylltu â'r pwyllgor ermwyn penderfynu pa gamau y dylid eu cymeryd. Gallai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth am bryderon ag asiantaethau sydd angen gwybod fel yr heddlu neu'r gwasanaethau cymdeithasol. Dylid hefyd cynnwys rhieni neu warcheidwaid a'r bobl bregus fel y bo'n briodol. Dylai'r Ysgrifennydd gadw copi o'r holl gofnodion ysgrifenedig, adroddiadau, nodiadau a gohebiaeth sydd yn ymwneud ag unrhyw ddigwyddiad.

7. CYFRINACHEDD GWYBODAETH BERSONOL

Cedwir cronfa ddata o fanylion cyswllt yr aelodau gan y clwb. Cymerir gofal i ddiogelu'r wybodaeth hon yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data. Bydd manylion cyswllt unrhyw aelod ifanc neu oedolyn bregus yn cael eu cynnwys yn y gronfa ddata hon, oni bai bod rhiant neu warcheidwad y plentyn, neu'r oedolyn bregus dan sylw neu ei asiant cydnabyddedig, yn gwneud cais i'w hepgor.

8. ADOLYGIAD POLISI

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn gan y pwyllgor ac yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol neu yn syth ar ôl unrhyw ddigwyddiad rhoddir gwybod amdano.

9. MANYLION CYSYLLTU

Manylion cysylltu Adran Gwasanaeth Cymdeithasol:-

Os yw o dan 18 oed: **01758 704 455** neu cyfeiriadauplant@gwynedd.llyw.cymru

Os yw dros 18 oed: **01766 772 577** (9am - 5pm) neu cynghoriasesuoedolion@gwynedd.gov.uk

Rhif Ffôn tu allan i oriau: **01248 353 551**

Os yw yn fater berygl uniongyrchol ffoniwch yr Heddlu ar **999** neu **rhianaaaaa**

Gwefan Bwrdd Lleol Diogelu Gogledd Cymru: https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/